**Cysylltedd, Thrafnidiaeth a Ddigidol**

**Transport and Digital Connectivity**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: HRO/2025/00001

Awst 2025

At bwy bynnag sydd â diddordeb

Annwyl Syr/Madam

**Gorchymyn Adolygu Arfaethedig Awdurdod Harbwr Saundersfoot**

Yn ein gohebiaeth ar 1 Ebrill 2025 i Awdurdod Harbwr Saundersfoot, cadarnhaodd Polisi Porthladdoedd Llywodraeth Cymru ei benderfyniad i roi ymchwiliad ar waith i'r cais gan Awdurdod Harbwr Saundersfoot am Orchymyn Adolygu ar gyfer yr Harbwr (Y Gorchymyn Arfaethedig).

**Penodi Personél yr Ymchwiliad**

Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod Cadeirydd yr Ymchwiliad a'r Swyddog Rhaglen ar gyfer yr ymchwiliad wedi cael eu penodi.

| | |
|---|---|
| Cadeirydd yr Ymchwiliad | Gethin Thomas<br>Bargyfreithiwr, 39 Siambrau Essex |
| Swyddog y Rhaglen | Helen Wilson<br><br>Ffôn: 01432 639547<br>Ffôn Symudol: 07879 443035<br>E-bost: helen@programmeofficers.co.uk<br>Gwefan:<br>https://www.hwa.uk.com/projects/saundersfoot-harbour-revision-order-inquiry/ |

Bydd gwefan Swyddog y Rhaglen yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad.

**Cyhoeddi gwrthwynebiadau**

Wrth gadarnhau penodi Cadeirydd yr Ymchwiliad a Swyddog y Rhaglen, mae'n ofynnol i Bolisi Porthladdoedd Llywodraeth Cymru wneud copïau o ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Arfaethedig a gyflwynwyd inni yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac nad ydyn nhw wedi cael eu tynnu'n ôl gan wrthwynebwyr.

Bydd Swyddog y Rhaglen yn cyhoeddi'r dogfennau hyn ar ei gwefan gyda golygiadau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Swyddog y Rhaglen:

https://www.hwa.uk.com/projects/proposed-Saundersfoot-harbour-Authority-revision-order-inquiry/

Bydd rhestr o'r dogfennau a gyhoeddir yn cael ei darparu gan Swyddog y Rhaglen pan fyddan nhw ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chyhoeddi'r dogfennau hyn, cysylltwch â Mari Williams, rheolwr achos Gorchmynion Harbwr, drwy e-bost:

Mari.Williams2@llyw.cymru

**Y Camau Nesaf**

Bydd Swyddog y Rhaglen yn cysylltu â'r holl wrthwynebwyr (ni waeth a oedden nhw wedi tynnu eu gwrthwynebiad yn ddiweddarach nei beidio) ac Awdurdod Harbwr Saundersfoot maes o law, i gadarnhau'r camau gweithdrefnol nesaf mewn perthynas â'r ymchwiliad, gan gynnwys cadarnhau dyddiad ar gyfer cyfarfod â Chadeirydd yr Ymchwiliad cyn yr ymchwiliad. Pwrpas y cyfarfod cyn-ymchwiliad yw i Gadeirydd yr Ymchwiliad nodi a chytuno ar y weithdrefn ar gyfer yr ymchwiliad.

Bydd dyddiad a lleoliad yr ymchwiliad ei hun yn cael eu cadarnhau'n ffurfiol gan Swyddog y Rhaglen yn dilyn y cyfarfod cyn yr ymchwiliad. Rhagwelir y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal ddiwedd yr Hydref/Gaeaf 2025 er nad yw hyn wedi cael ei gadarnhau'n ffurfiol ac mae'n debygol o newid..

Yn gywir

**Jon Moody**

**Y Tîm Porthladdoedd a Logisteg/ Ports and Logistics Team**
**Cysylltedd Trafnidiaeth a Ddigidol/ Transport and Digital Connectivity**
**Y Grŵp Economi, Ynni a Thrafnidiaeth/ Economy, Energy and Transport Group**
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.